

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,  
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and  
Constitution Committee**

**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddDCC@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDCC  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddLJC@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddLJC  
0300 200 6565

Mick Antoniw AS  
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

15 Chwefror 2023

Annwyl Mick

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor**

Diolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar **13 Chwefror**, ar gyfer trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar **Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**.

Yn ystod y drafodaeth ar grŵp 1 a'r gwelliannau yn ymwneud â gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol fe wnaethoch gytuno i roi manylion i ni ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adolygu'r holl ddeddfwriaeth yn y maes hwn a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgymryd â gwaith o'r fath.

O ystyried ein dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Mawrth 28 Chwefror 2023.

Yn gywir

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies  
Cadeirydd



**Senedd Cymru  
Welsh Parliament**